

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar  
Zoom  
Nos Fawrth, Medi 14, 2021 am 7:30yh o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Simon Evans, Gethin Williams, Geraint Rowlands, John Hughes, Elfed ap Gomer, Llinos Williams, Gwenan Owen. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:**

Gareth Ellis, Peredur Jenkins.

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 13, 2021**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Gorffennaf 13, 2021**

Eitem 9. ff. Llythyr (13/7/2021) oddi wrth Mrs Gwenan Owen, Caegoronwy yn rhoi gwybod mae'n fodlon rhoi ei henw ymlaen i gynrychioli ardal Bontddu ar y Cyngor.

Anfonwyd llythyr (11/8/2021) i Mrs Gwenan Owen yn rhoi gwybod ei bod wedi cael ei derbyn yn gynghorydd ar y Cyngor.

Croesawyd Gwenan i'r Cyngor.

Eitem 9.c. Llythyr ateb (21/7/2021) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Maent yn rhoi gwybod nid oes ganddynt bwerau i symud campervans ymlaen ar eu taith ond maent yn cynghori nhw i ddefnyddio gwerysll pwrpasol. Mae gan Adran Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd linc i 'Arolwg Cartrefi Modur' <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Arolwg-Cartrefi-Modur.aspx> Mater i Cyngor Gwynedd yw rhwystro mynediad at y bont ac yn awgrymu i ni gysylltu â [sianjones@gwynedd.llyw.cymru](mailto:sianjones@gwynedd.llyw.cymru)

Mwy o wybodaeth ar:

[https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Newyddion/Datganiadau-ir-wasg/Gorffennaf-2021/Holi-barn-pobl-Gwynedd-am-sut-i-reoli-cartrefi-modur-yn-y-sir.aspx?utm\\_source=Facebook&utm\\_medium=social&utm\\_campaign=Orlo&s=03](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Newyddion/Datganiadau-ir-wasg/Gorffennaf-2021/Holi-barn-pobl-Gwynedd-am-sut-i-reoli-cartrefi-modur-yn-y-sir.aspx?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=Orlo&s=03)

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 14, 2021

Anfonwyd llythyr (22/7/2021) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, yn rhoi cais am linellau melyn ar y ffordd, ar ochr orllewinol o'r ffordd.

Llythyr (24/7/2021) oddi wrth Peredur Jenkins i'w anfon ymlaen i'r aelodau. Llythyr yn rhoi linc i wefan Cyngor Gwynedd i ymateb eu hymgyngori cyhoeddus ynglŷn â sut i wella rheoli 'chartrefi modur yng Ngwynedd'. Disgwylir i'r aelodau ymateb.

Eitem 9.dd. Ymatebodd Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth i'r llythyr trwy roi gwybod iddynt mae angen edrych i mewn i rôl cynghorau cymuned ac ystyrio eu hail-drefnu cyn ystyrio cymwysterau clercod. Rhoddwyd hefyd gwaith mae'r Clerc yn ei wneud a phwerau sydd gan y Cyngor.

Llythyr (29/8/2021) oddi wrth Mike Owen, Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd. Mae wedi cael gwybod gan Un Llais Cymru mae'n debygol mater i gynghorau mawr yw anghenion cymwysterau clercod.

Eitem 5.a. Llythyr (29/7/2021) Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd yn cydnabod ein dymuniad.

Llythyr (29/7/2021) oddi wrth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod yr agoriadau y toiledau ganddynt ac maent am archwilio cyflwr y safle i weld beth sydd angen ei gario allan ar yr adeilad. Maent yn cydnabod nac ydym am barhau eu rhedeg.

Llythyr (2/8/2021) oddi wrth Swyddfa Brisio yn gofyn am fwy o wybodaeth. Anfonwyd llythyr (10/8/2021) iddynt yn gofyn am eglurhad o'r wybodaeth roeddynt ei angen. Gwblhawyd, yn llwyddianus, (12/8/2021) ffurflen 'Withdrawal of 2017 Rating Proposal'.

Eitem 11.b. Llythyr (27/7/2021) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod maent yn ymwybodol o'r broblem tyfiant ar Hen Bont Llanelltyd ac yn gobeithio gwneud y gwaith eleni ar ôl diwedd y tymor nythu.

Eitem 11.a. Llythyr (12/8/2021) oddi wrth Richard Williams gyda phris i drwsio'r lloches fysus Taicynhaeaf.

Cafwyd wybod nid oedd H.B. Bromley Ltd am gynnig pris.

Penderfynwyd derbyn y pris £240.00 rhoddwyd gan Richard Williams i wneud y gwaith.

## **5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (19/8/2021) oddi wrth Lywodraeth Cymru angen i ni gwblhau ffurflen 'Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol – Datganiad Blynyddol'.

Anfonwyd y wybodaeth iddynt (19/8/2021).

b. Llythyr (25/8/2021) oddi wrth Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd £3,750.00 (praesept) yn ein cyfrif banc o fewn 3 diwrnod.

c. Bil (21 Awst 2021) am £52.96 oddi wrth Dŵr Cymru at Doiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 9 Chwefror 2021 - 20 Awst 2021. Mae'n cael ei dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. (Llynedd roedd y gost yn £58.88 ).

Penderfynwyd rhoi gwybod i Dŵr Cymru mai Cyngor Gwynedd sydd o hyn ymlaen yn gyfrifol am y toiledau.

ch. Bil (9/9/2021) am £174.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad tuag at wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2020/2021.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Balans yn y banc ar 29/7/2021: £11,120.85. (29/7/2020: £10,772.87).

dd. Balans yn y banc ar 29/8/2021: £14,743.05. (29/8/2020: £14,298.43).

## **6. Archwilio**

a. Llythyr (18/8/2021) oddi wrth Archwilio Cymru angen eglurhad ar ddryswch lleoliad costau'r Clerc yn ein hadroddiad cyfrifon.

Rhodddwyd y wybodaeth iddynt (23/8/2021). Dechreuwyd y dryswch gan ein Harchwilydd Mewnol yn 2018-2019 gan symud y costau o 'Staff' i 'Gweinyddu'.

b. Llythyr (1/9/2021) oddi wrth Archwilio Cymru angen eglurhad pam bod y pres rydym yn cadw wrth gefn yn fwy na'r Praesept.

Rhodddwyd gwybod iddynt (1/9/2021): Mae'r Cyngor yn rhoi sylw i'r praesept maent yn ei hawlio. Yn Ionawr 2017 penderfynodd y Cyngor bod angen rhoi llai o arian rhodd i sefydliadau i gael cytbwys rhwng Incwm a Gwariant. I ofalu nad oedd y Cyngor yn mynd i ddyled penderfynwyd codi'r Praesept 2017/2018 o £6,500 i £7,500 ac ar y ffigwr hynny mae'r Praesept wedi bod. Mae gan y Cyngor materion sy'n anodd ei rhagweld, fel costau i lenwi biniau halen ar ffyrdd gwledig y gymuned ac yr elw neu golled bydd y Cyngor yn ei gael am y gwaith bydd angen ei wneud yn y Fynwent. Yn ychwanegol, rydym yn rhoi sylw i'r taliad £150 sydd angen ei wneud i'r aelodau tuag at eu costau. Er ei gynwys wrth baratoi ein Praesept, nid yw'r aelodau yn ei dderbyn. O'r adroddiadau blynyddol diweddar dyma'r tro cyntaf i'r balans i'w gario ymlaen bod yn fwy na'r Praesept.

### **7. Mynwent Llanelltyd**

- a. Llythyr (16/8/2021) oddi wrth Sonja Benskin Mesher yn rhoi gwybod bod y Fynwent yn daclus ond yn sylwi bod coed sycamorwydden yn tyfu ar feddi ym mynwent ganol.

Penderfynwyd gofyn i Meurig Ashton i dorri'r coed.

- b. Bil (31/8/2021) am £372.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd am gasglu gwastraff masnachol am y cyfnod 1/4/2021 – 31/3/2022.

Cytunwyd telerau'r gwasanaeth yn gofnodion Ebrill 13, 2021 eitem 7.a.

Penderfynwyd talu'r bil.

### **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

- a. Cais cynllunio NP5/65/367. Adeilad unllawr i'w ddefnyddio fel llety cathod masnachol (4 cath). Dolfawr, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (16/8/2021).

- b. Cais cynllunio NP5/65/285B. Adeilad Adeiladu estyniad blaen unllawr gyda to a waliau gwydr. Cae Coch, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

- c. Cais cynllunio NP5/65/274G. Codi adeilad ar gyfer cadw peirianau amaethyddol, porthiant anifeiliaid a gwrraith. Maes Hyfryd, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

### **9. Gohebiaeth**

- a. Llythyr (16/7/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd encilfa ar ochr orllewinol i Bontddu ar ffordd A496 ar gau o 9/8/2021 am 18 mis i Cyfoeth Naturiol Cymru gael mynedfa ddiogel i Goedwig Bontddu yn ystod cyfnod gwaith torri coed. Mae disgwyl bydd y gwaith wedi ei gwblhau o fewn tua 6 mis.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

- b. Llythyr (5/8/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd encilfa ar ochr orllewinol i Bontddu ar ffordd A496 ar gau o 9/8/2021 am 18 mis i Cyfoeth Naturiol Cymru gael mynedfa ddiogel i Goedwig Bontddu yn ystod cyfnod gwaith torri coed. Mae disgwyl bydd y gwaith wedi ei gwblhau o fewn tua 6 mis.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 14, 2021

c. Llythyr (19/7/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau Agenda Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Star Leaf am 7.00yh ar 28/7/2021. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd oedd ar 26/5/2021.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

Llythyr (26/7/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda linc i'r cyfarfod. Y siaradwr yw Dirprwy Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (28/7/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau am fis Awst.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (3/8/2021) oddi wrth Uned Trafnidiaeth a Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y lloches fws sydd ar ffordd A470 ac ar gyfer mynedfa i Trem y Gader, Llanelltyd yn cael ei uwchraddio gyda sgriniau 'Real Time Information'. Y Cyngor Cymuned fydd yn parhau i gynnal a chadw'r lloches Ni fydd angen y lloches fws bresenol ac yn ei gynnig i'r Cyngor Cymuned i'w leoli mewn lleoliad arall.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (4/8/2021) i Uned Trafnidiaeth a Diogelwch Ffyrdd yn rhoi gwybod iddynt nid oes lloches fws ar y safle. Hefyd, holi os bydd y lloches newydd yn dod yn un o asedau'r Cyngor Cymuned ac os bydd beth fydd gwerth ariannol y lloches i roi gwybod i'n cwmni yswiriant.

Llythyr (18/8/2021) oddi wrth yr Uned Trafnidiaeth a Diogelwch Ffyrdd yn rhoi gwybod bydd angen i ni yswirio'r lloches. Ei werth bydd £8,000.

e. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion cyrsiau fydd ym mis Medi.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

f. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd. Maent am gysylltu gyda sefydliadau ar draws Gwynedd i drafod materion i wella economi, amgylchedd, cymdeithas a diwylliant. Maent am ddechrau trwy gael cyfarfod rhithiol gydag haelodau cyngorau cymuned neu rhai o'r aelodau; y nhw sydd yn adnabod sefydliadau bydd â diddordeb yn y mater. Derbyniwyd copiau o 'Ein ardal Ni 2035 Dalgylch Dolgellau'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Roedd Simon angen copi o 'Ein ardal Ni 2035 Dalgylch Dolgellau'.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 14, 2021

ff. Llythyr (25/8/2021) oddi wrth Llywodraeth Leol, Caerdydd yn ymwneud ag ymgynghoriad sydd ar drethi lleol ar gyfer ail gartref a llety hunanarlwyo. Maent angen sylwadau erbyn 17 Tachwedd 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd mai'r aelodau sy'n ymateb i'r llythyr.

g. Llythyr (31/8/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Medi 8, 2021 am 7.00yh trwy Star Leaf. Thema y cyfarfod fydd Tai, cartrefi fforddiadwy ac ail gartref. Amgáu mae Agenda, Cofnodion 28/7/2021, Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 28/7/2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (31/8/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion Star Leaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

h. Llythyr (31/8/2021) oddi wrth Uned Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ddigwyddiad arbennig o ras feicio 'Tour of Britain' o Fachynlleth i Flaenau Ffestiniog ar hyd ffyrdd A487, A470 ac A496. Bydd y digwyddiad, a gwahardd trafniadaeth ar y ffyrdd, rhwng 10.30yb a 4.00yh ar Medi 8, 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

i. Llythyr (8/9/2021) oddi wrth Comisiwn Ffiniau i Gymru gydag adroddiad Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholiadau Senedd newydd Cymru 2023. O'r adroddiad, bydd cymunedau Brithdir a Llanfachreth, Ganllwyd, a Llanelltyd yn uno.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

j. Llythyr (10/9/2021) oddi wrth Antony Griffiths, Cyfoeth Naturiol Cymru yn ateb llythyr 9/6/2021 yn gofyn am eu cynlluniau i'r tir yn goedwigoedd Bontddu a Llanelltyd wedi iddynt orffen gwaith torri coed (Cofnodion Mehefin 8, 2021, Eitem 5.).

Mae gwaith torri coed yn Llanelltyd wedi ei gwblhau ond mi fydd angen mynd yn ôl i dorri rhes o goed tu cefn i dai Bro Cymer yn y dyfodol. Nid yw'n bosib gwneud y gwaith ar hyn o bryd oherwydd cysylltiad sydd angen ei wneud gyda Scottish Power a phreswylwyr Bro Cymer.

Does dim gwaith torri coed yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn Bontddu oherwydd mae angen rhoi sylw i ddiogelwch gweithio, sef gosod ffens i rwystro coed llithro i'r ffordd.

Wedi cwblhau'r gwaith, bydd coed yn cael eu plannu ar y ddau safle. Mae Antony Griffiths yn fodlon cyfarfod y Cyngor os mae angen.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

### **10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

Nid oedd adroddiad.

### **11. Materion Brys**

a. Anfonwyd llythyr (27/7/2021) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod iddynt rydym wedi cael cwynion gan drigolion ardal Taicynhaeaf am beryglon ffordd A496 ar gyfer Bryn Melyn. Mae ambell i ddamwain wedi bod yn y lleoliad yma yn ddiweddar ac mae hyn oherwydd gyrwyr ddim yn sylweddoli pa mor gul yw lled y ffordd a ddim yn cymryd gofal wrth yrru. Mae angen gwneud rhywbeth i arafu cyflymder cerbydau ar ddarn yma o'r ffordd. Rhoddwyd gwybod iddynt roi sylw i'r mater.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd llythyr (7/8/2021) oddi wrth berchnogion Bryn Melyn yn rhoi gwybod am beryglon y ffordd a damweiniau sy'n digwydd yno. Anfonwyd y llythyr ymlaen i Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd llythyr (12/8/2021) i PC Gareth Jones iddo gadw llygad ar y lle.

b. Llythyr (9/9/2021) oddi wrth Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd yn rhoi gwybod ei fod wedi cael cwyn gan ambell i berson yn Ganllwyd yn dweud bod llinellau ac arwyddion gwyn ar y 'roundabout' Llanelltyd wedi gwywo ac angen eu hail peintio. Rhoddodd wybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

i. Mae angen asesu'r coed sy'n dilyn ffordd Cwm Mynach am y clefyd 'Ash Dieback'.

ii. Mae angen tocio coed wrth gyffordd ffordd Cwm Hirgwm i ffordd A496, Bontddu. Mae ymweliad o'r gyffordd i gyfeiriad Bermo a Dolgellau ddim yn glir.'

-----